**EOC-07-01 (cof)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**Cofnodion**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad: | 31 Hydref 2001 | |
| Amser: | 9.30 a.m. | |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| | | |
| Yn Bresennol: | | |
| Aelodau | Edwina Hart (Cadeirydd) | G•yr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| | | |
| Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor: | Mashuq Ally | Pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru |
| | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Siaradwyr Gwadd: | Jonathan Lane | Pennaeth Uned Deddfwriaeth Hil y Swyddfa Gartref |
| | Cherry Short | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | Bert Massie | Cadeirydd Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | Kevin Fitzpatrick | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | | |
| Swyddogion: | Peter Gregory | Pennaeth Gr•p Rheoli Personél a Gwasanaethau Busnes |
| | Charles Willie | Pennaeth Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | Margaret Jones | Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | Kevin Willoughby | Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | Elizabeth Jones | Swyddog y Cwnsler Cyffredinol |
| | | |
| | Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Gwyther, Eleanor Burnham ac Alan Lansdown o'r Is-adran Cymorth Disgyblion.
2. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, yn dod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Tachwedd er mwyn trafod adroddiad CADW ar Fynediad i Adeiladau Hanesyddol.
3. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai materion yn ymwneud â cheiswyr lloches yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor yng ngoleuni'r newidiadau i'r system bresennol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Dywedodd y Cadeirydd hefyd wrth y Pwyllgor:

- Byddai Stacey Thornton, sydd newydd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol (NASS), yn cael gwahoddiad i siarad â'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.
- Mewn ymateb i ymholiadau, derbyniwyd gohebiaeth gan Jane Hutt, Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn datgan "bod gan geiswyr lloches yr un mynediad at gyfleusterau gofal iechyd carchar ag sydd gan garcharorion". Nododd y Gweinidog hefyd y byddai'n ymweld â charchar

Caerdydd ym mis Tachwedd.
- Ysgrifennodd y Clerc at siopau sy’n ymdrin â thalebau yng Nghymru a derbyniodd atebion gan Lidl, Poundland ac ASDA yn nodi’r hyfforddiant a roddir i staff o ran ymdrin â thalebau.

Mewn trafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Cynulliad wedi gwrthwynebu i geiswyr lloches ddefnyddio talebau, a byddai angen craffu ymhellach ar yr oblygiadau o ran newidiadau yr Ysgrifennydd Cartref, megis cyflwyno Cardiau Adnabod.
- Bu Aelodau o Bwyllgor Gwaith y Cynulliad yn cyfarfod â grwpiau lleiafrifol ar ôl 11 Medi ac roedd Jane Davidson, Y Gweinidog dros Addysg, wedi ysgrifennu at bob ysgol. Cytunwyd y dylai’r Cynulliad gadw pobl ddiamddiffyn mewn cof yn ystod cyfnod fel hwn.

1. Dywedodd y Cadeirydd y byddai’r mater o fynediad i orsafoedd pleidleisio ar gyfer pobl sydd â gallu cyfyngedig yn cael ei drafod yn y cyfarfod cyntaf yn y Flwyddyn Newydd. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi’r arolwg a gynhaliwyd gan SCOPE ar ran y Comisiwn Hawliau Anabledd a’r adborth a dderbyniwyd gan swyddogion etholiadol ar brofiad yr etholiad cyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynrychiolydd o’r Comisiwn Trefniadau Etholiadol gan fod ganddynt adolygiad o’r trefniadau pleidleisio o fewn eu cylch gorchwyl i fynychu’r sesiwn hwn.
2. Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf i’r Pwyllgor ar waith y Cynulliad yn gweithredu Adroddiad McKenzie. Sefydlwyd gr•p llywio yn cynnwys swyddogion ac undebau llafur y Cynulliad er mwyn goruchwylio’r cynnydd o ran gweithredu’r argymhellion hynny nad oedd eisoes yn eu lle. Mae Strategaeth Lleoli a Recriwtio Staff yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bwriedir i fframwaith y strategaeth hon fod yn ei le erbyn Ionawr 2002 yn dilyn ymgynghori ffurfiol â staff y Cynulliad a’r Undebau Llafur. Ymgynghorir hefyd â’r comisiynau cydraddoldeb, Comisiynwyr Gwasanaeth Sifil a Swyddfa’r Cabinet. Bydd rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff yn cael ei datblygu er mwyn ategu’r strategaeth. Disgwylir i’r strategaeth fod yn weithredol o fis Ebrill 2002 ymlaen. Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn cyflwyno adroddiad llawn i’r Pwyllgor yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Ni ddisgwylir unrhyw anawsterau o ran gweithredu’r adroddiad. Roedd pryderon staff yn cael eu datrys mewn ymgynghoriad â’r Adran Personél.

1. Ar 12 Rhagfyr, bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y gofyniad o dan reolau sefydlog bod aelodau yn datgelu a ydynt yn aelodau o’r Seiri Rhyddion. Bydd y Pwyllgor yn cael ei hysbysu am ganlyniad y cyfarfod hwn.
2. Addawodd y Cadeirydd ysgrifennu at Y Gweinidog dros Addysg yn mynegi pryder y Pwyllgor am y byr rybudd a dderbyniwyd yngl•n â lansio ymateb y Cynulliad i Ymchwiliad Stephen Lawrence. Gallai’r lansiad wedi bod yn gyfrwng i godi proffil y Pwyllgor o ystyried y gwaith a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ar yr ymchwiliad.
3. Cytunodd y Cadeirydd i wahodd Gweinidog o’r Swyddfa Gartref i gyfarfod o’r pwyllgor yn y dyfodol er mwyn hwyluso’r broses o rannu gwybodaeth.

**Eitem 2: Gweithgor ar Gyflog Cyfartal**

Papur: EOC-07-01 (p.1)

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur sy'n hysbysu'r Pwyllgor am ganlyniadau cyfarfod cyntaf y gweithgor ar gyflog cyfartal. Mae'r papur yn cyflwyno rhestr o argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor, gan gynnwys cynllun gweithredu a strategaeth y wasg.

2. Mewn trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Ystyriwyd bod y gyllideb o £28,000 ar gyfer ymgyrch y wasg yn rhy geidwadol. Byddai angen ei chynyddu i tua £50,000 er mwyn sicrhau bod gan yr ymgyrch yr adnoddau angenrheidiol er mwyn cynhyrchu gwybodaeth o safon uchel.
- Mae'r ymgyrch Cyflog Cyfartal yn gofyn am swyddog enwebedig o fewn y Cynulliad er mwyn cydlynu gwaith y Gweithgor.
- Dylai'r sector preifat chwarae rhan amlycach yng ngwaith y Gweithgor. Bydd TUC Cymru yn ystyried ffyrdd o gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sector preifat yng ngwaith y Gweithgor.
- Mae Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru yn datblygu 'offeryn cyflog' a anelir at gwmnïau sydd â llai na 25 o gyflogeion er mwyn sicrhau y gellir gweithredu a monitro Cyflog Cyfartal mewn busnesau llai yng Nghymru.
- Bydd ymchwil i'r Gwahaniaeth o ran Cyflog ar sail Rhyw, a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal, yn cael ei lansio'n gyhoeddus ar 20 Tachwedd.
- Dylai Llywodraeth Leol a Chynghorwyr gymryd rhan yng ngwaith y Gweithgor cyn gynted ag y bo modd. Nodwyd cyfarfodydd Partneriaeth Cyngor fel cyfle i gynnwys llywodraeth leol yng ngwaith y gweithgor.

2. Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i'r argymhellion a wnaed yn y cynllun gweithredu a strategaeth y wasg. Addawodd y Cadeirydd i gydgysylltu â'r Gweinidogion perthnasol er mwyn rhoi cig ar esgyrn y cynigion a gynhwysir yn y papur. Bydd hyn yn sicrhau bod ymateb manwl i'r argymhellion ar gael ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i benodi David Melding fel Cadeirydd y Gweithgor.

**Eitem 3: Deddf Cysylltiadau Hiliol Ddiwygiedig**

1. Cyflwynwyd yr eitem gan Jonathan Lane, Pennaeth yr Uned Deddfwriaeth Hil yn y Swyddfa Gartref. Roedd diben yr uned yn ddeublyg, sef gweithredu Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000 yn fewnol ac allanol a gweithredu Erthygl 13 o'r Gyfarwyddeb Hil.

3.2 Hysbyswyd y Pwyllgor bod y Ddeddf Ddiwygiedig wedi ymestyn darpariaethau Deddf 1976 mewn dwy ffordd sylfaenol:

- Roedd cwmpas y ddarpariaeth ar gyfer gwrth-wahaniaethu wedi ei ymestyn yng ngoleuni argymhelliad 11 o ymchwiliad Stephen Lawrence er mwyn cynnwys pob swyddogaeth gyhoeddus, gan gynnwys cyfraith a threfn. Daeth y ddarpariaeth hon i rym ar 2 Ebrill 2001.

- Mae’r Deddf Ddiwygiedig yn cynnwys dyletswydd statudol gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol drwy ddileu gwahaniaethu ar sail hil, hybu cyfle cyfartal a hybu perthnasau hil da. Mae hon yn agwedd flaengar o’r Ddeddf ac wedi’i chynllunio er mwyn galluogi awdurdodau cyhoeddus i atal gwahaniaethu yn y dyfodol. Mae’r ddyletswydd gyffredinol hon yn cynnwys adrannau’r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus anadrannol megis ysgolion. Rhestrir y Cynulliad yn y ddarpariaeth hon hefyd. Mae gofyn ar bob corff a restrir i hybu cydraddoldeb hiliol drwy gymhwyso’r dyletswyddau penodol yn y Ddeddf.

3. Rhestrir dyletswyddau addysgiadol a chyflogaeth penodol yn y Ddeddf hefyd. Mae’r dyletswyddau cyflogaeth yn cyd-fynd ag ymestyn y Ddeddf gan gyflwyno systemau monitro sy’n berthnasol i bob cyflogwr ar wahân i gwmnïau bach iawn.

3.4 Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Cynhyrchwyd y dyletswyddau addysgiadol a restrir yn y Ddeddf gan swyddogion yn yr Adran Addysg. Mae’r dyletswyddau penodol yn golygu bod yn rhaid i bob ysgol gynhyrchu polisi ysgrifenedig ar gydraddoldeb hil a monitro ethnigrwydd aelodau o’r staff.
- Ystyriwyd protocolau ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth i’r Cynulliad a theimlwyd y gallai’r Cynulliad chwarae rhan bwysig wrth ddosbarthu gwybodaeth yngl•n â’r Ddeddf ar draws Cymru.
- Eithrir cwmnïau bach o’r ddyletswydd cyflogaeth i fonitro gweithluoedd oherwydd y posibilrwydd y gellir nodi unigolion. Byddai’r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol yn parhau i fod yn gymwys i’r cwmnïau hyn cyn belled ag y’u bod yn sefydliad cyhoeddus.
- Mae’r Ddeddf Ddiwygiedig wedi ceisio osgoi rhai o broblemau Deddf 1976 drwy beidio â diffinio swyddogaethau cyhoeddus. Yn y pen draw lle’r system gyfreithiol fydd diffinio, mewn achosion unigol, yr hyn y mae swyddogaeth gyhoeddus yn ei olygu. Bydd hyn hefyd yn atal y Ddeddf rhag dyddio.
- Eithrir cyrff cyhoeddus penodol megis gwasanaethau gwybodaeth a diogelwch a chyrff mewnfudo o’r Ddeddf.
- Addawodd y Cadeirydd ysgrifennu at y Pwyllgorau Iechyd ac Addysg yn eu hysbysu bod y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn fodlon cynghori’r Pwyllgorau pwnc yngl•n â’u dyletswyddau penodol ar gyfer gweithredu’r Ddeddf Ddiwygiedig.
- Cytunodd y Pwyllgor yr hoffent i’r darpariaethau yn y Ddeddf fod yn gryfach nag ydynt.

**Eitem: Strategaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb**

Papur: EOC-7-01(p.2)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a oedd yn hysbysu’r Pwyllgor yngl•n â Hyfforddiant Cydraddoldeb a Strategaeth Codi Ymwybyddiaeth y Cynulliad.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaethau:

- Dylai’r strategaeth gynnwys y gofyniad bod Aelodau’r Cynulliad yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb os ydynt yn rhan o broses penodi ymgynghorwyr arbenigol i Bwyllgorau. Mae hyn yn ychwanegol i’r gofyniad i Aelodau sy’n rhan o wneud penodiadau cyhoeddus i gymryd rhan mewn

hyfforddiant cydraddoldeb.

- Mae’r broses o hyfforddi staff wedi mynd rhagddo ac mae’r Ysgrifennydd Parhaol a’r Pennaeth Personél wedi ymgymryd â hyfforddiant o’r fath yn ddiweddar. Bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn rhoi gwybod i’r Pwyllgor am nifer a statws y gweision sifil a dderbyniodd hyfforddiant cydraddoldeb hyd yma.

1. Addawodd y Cadeirydd ysgrifennu at bob un o reolwyr busnes y pleidiau yn nodi cefnogaeth y Pwyllgor i’r papur a nodi ffyrdd o gyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer aelodau sy’n rhan o’r broses penodi.

**Eitem 5: Teithwyr a phobl Roma a Sinti**

Papur: EOC-07-01(p.3)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur drwy amlygu’r angen am ymagwedd integredig ar draws y Cynulliad er mwyn ymdrin ag anawsterau o ran darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion Sipsiwn-Deithwyr.
2. Gwnaed y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad sylweddol i’r materion trawsbynciol a effeithiai ar Sipsiwn-Deithwyr. Cesglir tystiolaeth o Arfer Gorau ar hyd a lled Ewrop. Nodwyd Neil Crowley, Prif Weithredwr yr Agenda Cydraddoldeb yng Ngogledd Iwerddon, fel ffynhonnell bosibl o gyngor ac arbenigedd. Byddai’r Pwyllgor hefyd yn ceisio tystiolaeth gan sefydliadau allanol ar draws Cymru.
- Mae’n bwysig ymgynghori â thrigolion lleol fel y gall yr ymchwiliad gynrychioli eu barn hwy yn ogystal â’r cymunedau teithiol tra’n casglu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad. Gellid defnyddio Pwyllgorau Rhanbarthol i gasglu gwybodaeth leol.
- Bydd yr ymchwiliad yn gofyn am strategaeth benodol oherwydd yr agweddau trawsbynciol sydd angen ymchwilio iddynt megis iaith a diwylliant, addysg, cyflogaeth, iechyd a rôl Llywodraeth Leol. Dylai’r strategaeth hefyd ddiffinio ethnigrwydd y grwpiau amrywiol sy’n bodoli o dan y pennawd Sipsiwn-Deithwyr.
- Trafodwyd y posibilrwydd o recriwtio ymgynghorydd arbennig a chydgysylltu â’r Swyddfa Gartref ar gyfer yr ymchwiliad.
- Gofynnodd y Cadeirydd i’r Pwyllgor ymgymryd â sesiwn briffio gyda swyddogion a Dr Clay, swyddog cyswllt Caerdydd, cyn cychwyn yr ymchwiliad. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i’r Clerc baratoi nodyn ar gyfer y cyfarfod nesaf sy’n amlinellu diben ar gyfer yr ymchwiliad ac sy’n cynnwys amserlen ar gyfer sesiynau tystiolaeth.

**Eitem 6: Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd**

1. Cyflwynodd Bert Massie, Cadeirydd y Comisiwn Hawliau Anabledd a Dr Kevin Fitzpatrick, Comisiynydd Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru, yr adroddiad. Diolchodd y Comisiwn Anabledd i’r Cynulliad am ei gymorth a’i ymrwymiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
2. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd y Comisiwn Anabledd wedi sefydlu swyddfa yng Nghaerdydd gan recriwtio 150 o staff yn genedlaethol. Mae’r Comisiwn Anabledd yn cynnig

help a chymorth ymarferol drwy gyfrwng Llinell Gymorth a dderbyniodd 65,000 o alwadau yn y flwyddyn gyntaf. Disgwylir y bydd yn derbyn 80,000 o alwadau eleni. Derbyniwyd 20% o'r holl alwadau gan gyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaeth. Mae'r staff llinell gymorth wedi eu hyfforddi mewn materion sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth anabledd a recriwtiwyd arbenigwyr er mwyn cynghori ar achosion penodol. Mae tîm gwaith achos y Comisiwn Anabledd yn helpu pobl i ddatrys anawsterau ac anghydfod â chyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaeth. Ymgymerodd y tîm â 2,200 o achosion y llynedd a llwyddodd i ddatrys tua 60% ohonynt. Aeth y Comisiwn Anabledd â thua 41 o achosion i'r llys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n disgwyl mynd â 70 i'r llys eleni. Yn aml achosion prawf yw'r rhain, a ddefnyddir er mwyn rhoi cig ar esgyrn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

3. Mae'r Comisiwn Anabledd yn gweithio â'r llywodraeth er mwyn nodi diffygion ym meysydd polisi ac roedd pasio Deddf Anghenion Arbennig ac Anabledd yn ddigwyddiad o bwys eleni. Cyflwynodd y tasglu Hawliau Anabledd god arfer statudol yngl•n â mynediad i nwyddau a gwasanaethau cyn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a ddaw i rym yn 2004. Y pwyslais ar y cod ymarfer yw y dylai pob gwasanaeth fod yn hygyrch ac nid bob adeilad o anghenraid.
4. Gweithiodd y Comisiwn Anabledd yng Nghymru i hybu'r broses o ddileu gwahaniaethu a darparu gwasanaeth cymorth i bobl Cymru. Sefydlwyd perthnasau hefyd yn y flwyddyn ddiwethaf gydag Aelodau'r Cynulliad, swyddogion y Cynulliad a sefydliadau Anabledd eraill yng Nghymru, megis Anabledd Cymru. Bydd y Comisiwn Anabledd yng Nghymru yn parhau i weithio tuag at ddarparu gwasanaeth sydd ar gael i bawb yng Nghymru yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

5. Gwnaed y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Mae trefniadau monitro yn cael eu sefydlu a fydd yn dadansoddi'r nifer o alwadau a dderbyniwyd rhwng cyflogaeth ac addysg. Bydd hyn yn galluogi staff i gael eu recriwtio ar sail anghenion.
- Roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd gwasanaeth dwyieithog y Comisiwn Anabledd yng Nghymru yn ddigonol. Mae'n bwysig bod y Comisiwn Anabledd yn cyflawni'r dyletswyddau a gwmpesir yn Neddf yr Iaith Gymraeg er bod y Pwyllgor wedi derbyn bod angen i'r Comisiwn Anabledd ddefnyddio yr adnoddau sydd ar gael iddo yn effeithiol.
- Roedd angen codi ymwybyddiaeth yng Nghymru yngl•n â gwaith y Comisiwn Anabledd gan mai dim ond cyfran fach o alwadau a ddaw o Gymru ar hyn o bryd. Mae angen i sefydliadau anabledd lleol fod yn rhan o waith y Comisiwn Anabledd er mwyn dosbarthu gwybodaeth drwy gyfrwng y wasg leol a rhanbarthol. Byddai cyfranogiad Aelodau'r Cynulliad ar lefel leol o fudd i waith y Comisiwn Anabledd.
- Addawodd y Cadeirydd ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgorau Rhanbarthol yn awgrymu bod siaradwr o'r Comisiwn Anabledd yn mynychu cyfarfod er mwyn trafod gwaith y sefydliad. Gellid gwahodd grwpiau diddordeb lleol i'r cyfarfod er mwyn rhoi gwybod iddynt am waith y Comisiwn Anabledd.

**Eitem 7: Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol**

1. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan Dr Mashuq Ally, Pennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru a Cherry Short, Comisiynydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru. Diolchodd y Comisiwn Cydraddoldeb i'r Cynulliad am ei gymorth a'i

ymrwymiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2. Nod y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yw hybu amrywiaeth drwy’r gymanwlad o gymunedau sy’n bodoli yn y DU. Mae’r Comisiwn yn chwarae rhan allweddol o ran gweithio i ddileu gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn gweithio mewn partneriaeth â’r Cynulliad, yn bennaf drwy gyfrwng swyddogion yn yr Uned Polisi Cydraddoldeb, er mwyn asesu effaith polisi ac arferion ar grwpiau lleiafrifol yng Nghymru. Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb hefyd yn gweithio’n fewnol â’r Uned Polisi Cydraddoldeb er mwyn cynhyrchu archwiliad o 57 adran y Cynulliad.
3. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi gweithio yn y meysydd canlynol:

- Yn dilyn Ymchwiliad Stephen Lawrence, mae pob ysgol yng Nghymru yn berchen ar gopi o strategaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gydraddoldeb hiliol mewn ysgolion, sef ‘Dysgu i Bawb’.
- Hybu cyfleoedd ar gyfer rhagor o benodiadau cyhoeddus o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig.
- Gweithio tuag at hybu menter ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer yr henoed yng Nghymru.
- Hybu’r Her Arweinyddiaeth, er mwyn annog pobl ifanc i ddilyn esiamplau cadarnhaol aelodau dylanwadol o’r gymdeithas.
- Ymchwilio i waith yr Heddlu a’r Gwasanaeth Erlyn Troseddol er mwyn asesu’r rhesymau am y twf ym mhoblogaeth carchardai o bobl ddu ac o leiafrifoedd ethnig.
- Cydgysylltu â Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau bod trefniadau gwaith cydlynus ar waith er mwyn cwmpasu pob cymuned yng Nghymru.
- Datblygu cysylltiadau preifat â sefydliadau megis Awdurdod Datblygu Cymru a datblygu partneriaethau â’r sector gwirfoddol.
- Mae’r Comisiwn wedi gweithio gyda chymunedau er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r gwaith mae’n ei wneud. Defnyddiwyd y Gwobrau Amrywiaeth er mwyn cyflawni’r nod hwn.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Roedd sefydlu Uned Cydraddoldeb o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gam cadarnhaol ymlaen.
- Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru yn monitro’r sefyllfa ar y stryd bob dydd yng ngoleuni digwyddiadau 11 Medi. Bu teirgwaith gymaint o achosion o fwlïo mewn ysgolion, cam-drin merched a phlant o’r gymuned Fwslemaidd yn arbennig ac ymosod a bygwth mannau addoli Mwslemaidd ers 11 Medi. Llongyfarchwyd y camau cadarnhaol a gymerwyd gan y Cadeirydd a Phrif Weinidog Cymru sef ymweld ag arweinwyr cymunedol – ystyriwyd bod y camau hyn yn dangos cefnogaeth y Cynulliad. Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi cyflwyno cynnig i’r Gweinidog dros Addysg y dylid sefydlu gweithdai mewn ysgolion er mwyn rhoi llais i bryderon pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.
- Roedd y weinyddiaeth yn ystyried y posibilrwydd o ryddhau arian ychwanegol er mwyn diogelu a chynorthwyo’r gymuned Fwslemaidd.
- Bu cynnydd yn nifer yr achosion gwahaniaethu yng Nghymru gan bod pobl wedi dod yn fwy ymwybodol o’u hawliau. Mae codi ymwybyddiaeth yn broses barhaus y mae’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a’r Cyngor Cydraddoldeb Hiliol yn ei chynnal.

**Eitem 8: Newyddion diweddaraf ar yr ymateb i Dasglu Hawliau Anabledd**

Papur: EOC-07-01(p.4)

1. Cyflwynodd Kevin Willoughby o'r Uned Polisi Cydraddoldeb y papur sy'n datblygu materion anabledd ar draws holl is-adrannau'r Cynulliad. Tanlinellir yn y papur ymrwymiad y Cynulliad i arfer gorau yn hytrach na chydymffurfio ag argymhellion y tasglu'n unig. Mae'r papur yn rhan o gynllun gwaith pum mlynedd y Comisiwn Anabledd i ddwyn gwasanaethau at ei gilydd ar gyfer yr anabl yng Nghymru.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Mynegwyd pryder yngl•n â phrif-ffrydio addysg. Cefnogir addysg integredig gan y Comisiwn Anabledd er eu bod yn sylweddoli nad yw'n briodol ar gyfer bob plentyn a bod rôl yn bodoli ar gyfer Canolfannau Rhagoriaeth Addysg Arbennig.
- Bydd y papur yn cael ei anfon at y Gweinidogion dros Iechyd ac Addysg er gwybodaeth ac i ofyn am eu sylwadau yngl•n â sut y gellir cyflwyno dangosyddion am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan wasanaethau a hwylusir gan y Cynulliad.
- Gofynnodd y Cadeirydd am y newyddion diweddaraf yngl•n â gwaith mewnol y Cynulliad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol a'r newyddion diweddaraf mewn 12 mis yngl•n â'r modd y cafodd y papur ei weithredu gan sefydliadau allanol. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth yngl•n â'r gwaith mae'r Cynulliad yn ei gynnal mewn perthynas â'i gylch gorchwyl ar Ddatblygiad Economaidd a phobl anabl nad ydynt yn weithredol yn economaidd.
- Addawodd y Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros Addysg yngl•n ag anghenion addysg unigol plant anabl. Roedd y Pwyllgor yn bryderus bod gofynion ar adnoddau bellach yn drech nag anghenion plant anabl.

**Eitem 9: Adolygiad y Cynulliad o Weithdrefnau**

Papur: EOC-07-01(p.5)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem mewn ymateb i Gr•p Adolygiad y Cynulliad o Weithdrefnau, a ofynnodd am sylwadau'r Aelodau yngl•n â chynnig y dylai cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal gynnwys hawliau dynol.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Mae perygl y gallai cynyddu cylch gorchwyl y Pwyllgor niwlo ei ganolbwynt, yn enwedig gan fod Gweinidog gwahanol yn gyfrifol am faterion hawliau dynol yn y Cynulliad.
- Roedd hawliau dynol yn ymwneud â chydymffurfio â'r gyfraith tra bod y Pwyllgor yn ymwneud â hybu cyfle cyfartal.
- Mae angen system drawsbleidiol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau Hawliau Dynol y Cynulliad yn cael eu cyflawni.

1. Cytunodd y Pwyllgor na ddylid ehangu ei gylch gorchwyl er mwyn cynnwys hawliau dynol.

**Eitem 10: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Papur: EOC-06-01 (min)

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Tachwedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20.